# OASIS Sir Fynwy

Gwasanaeth Allgymorth, Cymorth Awtistiaeth a Chynhwysiant

## Tîm Cymorth Addysg

**Janine Geoghegan – Ymarferydd Cymorth Addysg**

Rwyf bob amser wedi teimlo awydd cryf i helpu pobl eraill – yn arbennig blant wrth iddynt ddechrau ar eu taith mewn bywyd. Ar ôl gorffen fy BSc mewn Blynyddoedd Cynnar, Datblygu ac Addysg yn 2015, dechreuais weithio mewn ysgolion fel cynorthwyydd addysgu. Yn ystod y cyfnod hwn, fe wnaeth fy ffocws ar lesiant a pherthyn lywio'r ffordd y cefnogwn blant. Fe wnaeth gweithio gyda Seicolegydd Addysgol yn y cyfnod hwn sbarduno fy niddordeb dyfnach mewn ymddygiad dynol a datblygiad yr ymennydd, ac arweiniodd hynny at i fi gwblhau MSc mewn Seicoleg Addysg yn 2018.

Ar ôl gorffen fy ngradd meistr symudais ymlaen i gefnogi disgyblion bregus mewn ysgolion ar sail un i un, gan weithio'n agos gyda'u teuluoedd i sicrhau dull gweithredu holistig. Ar ôl hynny bûm yn gweithio fel gweithiwr cymorth i deuluoedd yn Sir Fynwy am 3 blynedd. Roedd y swydd hon yn canolbwyntio ar weithio gyda theuluoedd ar nodau a osodwyd gan y teuluoedd i greu newid cadarnhaol. Yn y swydd hon roeddwn yn medru gweithio'n uniongyrchol gyda disgyblion gan gynnig ymyriad therapiwtig a gyda staff i rannu cyngor yng nghyswllt yr anghenion a ddangoswyd gan y plentyn. Roedd gweithio mor agos gyda theuluoedd yn cynnig dealltwriaeth wirioneddol werthfawr o'u safbwyntiau, yn arbennig yn ymwneud â'r heriau a wynebwyd o fewn addysg ar eu cyfer nhw a'u plant.

Ymunais â'r Tîm Cymorth Addysg (EST) ym mis Ionawr 2022 fel ymarferydd lle rwyf wedi bod yn ddigon lwcus i gyfuno popeth rwy'n ei wybod i hybu hyrwyddo arferion cynhwysol yn ysgolion Sir Fynwy.

**Rwy'n caru fy swydd oherwydd** mod i'n ffodus i weithio'n agos gyda phlant a hefyd gyda staff ysgolion, gan greu gofod ar gyfer ystyriaeth agored a galluogi newid cadarnhaol drwy ymyriad uniongyrchol. Rwy'n ei theimlo'n fraint i fod yn rhan o'r daith newid – gan gefnogi, grymuso a "dal llaw" staff wrth iddynt arwain y newidiadau eu hunain.

**Rwy'n angerddol am** ail-lunio'r lens y gwelwn anghenion plant drwyddi. Pan mae heriau'n gwneud i ni deimlo ein bod yn aros yn ein hunfan, rwy'n credu mewn mynd yn ôl i'r sylfeini – gan adeiladu seiliau cryf a chefnogol yn canoli ar lesiant a pherthyn. Fy nod bob amser yw sicrhau fod pob plentyn yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu cynnwys a'u deall.

**Rwyf hapusaf** pan fyddaf yn treulio amser gyda fy nheulu. Rwy'n gwirioneddol fwynhau fod mas mewn natur lle gallaf a mynd am dro, rhedeg neu ar fy meic.

**Mae pobl yn aml yn fy nisgrifio fel** sensitif, hwyl ac ystyriol.

**Rwyf bob amser yn ceisio bod yn** drugarog, dangos parch a bod â meddwl agored.